GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

1000 LIVES O FYWYDAU

| DATGANIAD I'R WASG | PRESS RELEASE |
|---|---|

**9 Hydref / September 2010**

# Staff GIG yn beicio at 1000 o Fywydau a Mwy




Am 9am bore Iau 10 Medi bydd pedwar beiciwr dewr yn cychwyn o brif fynedfa Ysbyty Maelor Wrecsam ar farathon beicio o gwmpas Cymru a fydd yn galw ym mhrif ysbytai'r wlad. Y bwriad ydy hybu'r rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy er mwyn gwella diogelwch cleifion ac i godi arian at elusen.

Mae'r beicwyr Mike Fealey, Chris Hancock, Paul Schanzer a Mark Thomas i gyd yn gysylltiedig â 1000 o Fywydau a Mwy, y rhaglen pum mlynedd i wella diogelwch cleifion ac i leihau niwed y gellir ei osgoi ar draws GIG Cymru

Ar eu marathon beic o gwmpas Cymru, byddant yn ymweld ag 19 ysbyty GIG ym mhob cwr o Gymru, gan gynnwys Bangor, Hwlffordd, Wrecsam a Chasnewydd, a hynny mewn with diwrnod yn unig.

Mae pob un o'r ysbytai'n cymryd rhan yn rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy. Bydd y beicwyr yn cyfarfod â'r timau sydd wedi ymrwymo i wella ansawdd gofal iechyd ym mhob lleoliad.

Noddir y beicwyr hefyd i godi arian at achosion da. Yn Ôl Chris Hancock, un o'r tîm beicio, amcanion y daith feicio ydy:

"Mae staff y GIG yn achub bywydau bob dydd. Bydd 1000 o Fywydau a Mwy yn eu galluogi i achub hyd yn oed mwy. Mae cymaint o waith da'n cael ei wneud gan staff sy'n awyddus i weld y gofal a roir i'w cleifion yn gwella. Mae hon yn ffordd dda o godi proffil yr hyn sy'n digwydd o gwmpas Cymru gyfan."

Yn Wrecsam bydd y Tîm 1000 o Fywydau + yn cynnal arddangosfa ym mhrif fynedfa'r ysbyty i hybu gwaith yr ymgyrch i staff, cleifion ac ymwelwyr. Dywedodd Sarah Lawrence, Swyddog Cefnogi'r Prosiect: "Mae staff ar draws Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi ymrwymo i ddarparu'r gofal gorau posib i'n cleifion. Roedd Ysbytai Glan Clwyd a Maelor Wrecsam yn ddau o'r ysbytai yn y DU a ddewiswyd i arwain y Fenter Cleifion Mwy Diogel. Rydym yn falch ein bod wedi gallu ymestyn y gwaith hwnnw drwy 1000 o Fywydau ac erbyn hyn 1000 o Fywydau a Mwy, ac wrth wneud hynny gwella ansawdd y gwasanaeth i gleifion.

Dywedodd Cyfarwyddwr 1000 o Fywydau a Mwy, “Mae’n galonogol iawn i glywed sut mae staff ar draws Cymru wedi ymrwymo i ddarparu’r gofal iechyd gorau posib. Mae hon yn ffordd wych o godi ymwybyddiaeth pawb o’r ymdrechion rhagorol i wella gofal iechyd fwy fyth.”

DIWEDD

**Nodiadau i olygyddion**

- Y beicwyr a’r elusennau a ddewiswyd ganddynt
  Mark Thomas - Elusen Canser y Prostad
  Mike Fealey - Lifeblood: Elusen Thrombosis
  Chris Hancock - Cymdeithas Alzheimer
  Paul Schanzer - Sefydliad Dewi Sant

- **<u>Amserlen Reid Beic ar gyfer 1000 o Fywydau a Mwy</u>**
  - 10 Medi : NLIAH Pencadlys Gogledd – Maelor Wrecsam – Ysbyty Glan Clwyd (Bodelwyddan) – Ysbyty Gwynedd (Bangor)
  - 11 Medi : Ysbyty Gwynedd – Bronglais (Aberystwyth)
  - 12 Medi : Bronglais – Llwyn Helyg (Hwlffordd)
  - 13 Medi : Llwyn Helyg - Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru (Caerfyrddin) – Ysbyty Tywysog Philip (Llanelli) – Treforus – Singleton (Abertawe)
  - *14 Medi : Diwrnod gorffwys*
  - 15 Medi : Singleton – Nedd Port Talbot – Tywysoges Cymru (Penybont- ar- Ogwr) – Llandochau – Felindre - Caerdydd
  - 16 Medi : Caerdydd – Brenhinol Gwent (Casnewydd) – Nevill Hall (Y Fenni) - Aberhonddu
  - 17 Medi : Aberhonddu – Tywysog Siarl (Merthyr) – Brenhinol Morgannwg (Llantrisant) – NLIAH Pencadlys De (Llanharan)

- Disodlodd Ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy yr Ymgyrch 1000 o Fywydau, sef menter dwy flynedd yn ymwneud â diogelwch cleifion a ddaeth i ben yn Ebrill 2010. Nod Ymgyrch 1000 o Fywydau oedd achub 1,000 o fywydau ac osgoi hyd at 50,000 episod o niwed gofal iechyd yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd.

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a’r Asiantaeth Diogelwch Cleifion Cenedlaethol yn gweithio ar y cyd i symud ymlaen â1000 o Fywydau a Mwy. Mae hefyd yn derbyn cefnogaeth y Sefydliad Gwella Iechyd a’r Sefydliad Iechyd.

- Am fwy o wybodaeth, ewch i www.1000livesplus.wales.nhs.uk

# NHS staff cycling for 1000 Lives Plus

At 9am on Thursday 10th September four intrepid cyclists will be setting out from the main entrance at Wrexham Maelor Hospital on a round-Wales cycling marathon that will link up the country's major hospital sites. 'The Improvement Cycle' is being done to promote the 1000 Lives Plus programme to improve patient safety and to raise money for charity.

Riders Mike Fealey, Chris Hancock, Paul Schanzer and Mark Thomas are all involved in 1000 Lives Plus, the five year programme to improve patient safety and reduce avoidable harm across NHS Wales.

On their round-Wales cycling marathon, they will visit 19 NHS hospitals in total in all four corners of Wales, including Bangor, Haverfordwest, Wrexham and Newport, in just eight days.

Every hospital they visit is involved in 1000 Lives Plus. The cyclists will meet the teams who are committed to improving the quality of healthcare in each location.

Each cyclist is also being sponsored to raise funds for worthy causes. Chris Hancock, one of the cycling team explains the aims of the bike ride:

"NHS staff save lives every day. 1000 Lives Plus will enable them to save even more. There is so much good work taking place by staff who are keen to see the care they offer patients improve. This is a good way of raising the profile about what is happening around Wales."

In Wrexham the 1000 Lives+ Team will be setting up a display in the Hospital's main entrance to promote the work of the campaign to staff, patients and visitors. Sarah Lawrence, the Project Support Officer said: "Staff across the Betsi Cadwaladr Health Board are committed to providing the best care possible for our patients. Glan Clwyd and Wrexham Maelor Hospitals were among the hospitals in the UK selected to lead the way in the Safer Patient Initiative. We are delighted that we have been able to extend that work through 1000 Lives and now 1000 Lives Plus, and in so doing to improve the quality of the service that patients experience."

1000 Lives Plus Director, Dr Alan Willson, said "It is really encouraging to hear how staff across Wales are committed to providing the best healthcare possible. This is a great way to raise everyone's awareness of the excellent efforts to improve healthcare still further."

ENDS

**Notes for editors**

- The cyclists and their chosen charitable causes
  Mark Thomas - Prostate Cancer Charity
  Mike Fealey - Lifeblood: The Thrombosis Charity
  Chris Hancock - Alzheimer's Society
  Paul Schanzer - St. David's Foundation

- **Bike Ride for 1000 Lives Plus Itinerary**
  - 10th Sept: NLIAH North HQ - Wrexham Maelor – Ysbyty Glan Clwyd (Bodelwyddan) – Ysbyty Gwynedd (Bangor)
  - 11th Sept: Ysbyty Gwynedd – Bronglais (Aberystwyth)
  - 12th Sept: Bronglais – Withybush (Haverfordwest)
  - 13th Sept: Withybush – West Wales General (Carmarthen) – Prince Phillip (Llanelli) – Morriston – Singleton (Swansea)
  - *14th Sept: Rest Day*
  - 15th Sept: Singleton – Neath Port Talbot – Princess of Wales (Bridgend) – Llandough – Velindre - Cardiff
  - 16th Sept: Cardiff – Royal Gwent (Newport) – Nevill Hall (Abergavenny) - Brecon
  - 17th Sept: Brecon – Prince Charles (Merthyr) – Royal Glamorgan (Llantrisant) – NLIAH South HQ (Llanharan)

- 1000 Lives Plus succeeded the 1000 Lives Campaign, a two year patient safety initiative which came to an end in April 2010. The 1000 Lives Campaign aimed to save an additional 1,000 lives and to avoid up to 50,000 episodes of harm in Welsh healthcare in its two years.

- 1000 Lives Plus is being taken forward by a collaborative involving the Welsh Assembly Government, Public Health Wales, the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare and the National Patient Safety Agency. It is also supported by the Institute for Healthcare Improvement and the Health Foundation.

- For further information please visit www.1000livesplus.wales.nhs.uk